OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 No. 996

# Gorchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2004

## RHAN 6

## RHEOLEIDDIO SYMUDIADAU

### Symud moch

**21.**—(1) Rhaid i unrhyw berson sy'n cludo moch gario dogfen, a lofnodwyd gan y ceidwad sy'n pennu —

(a) y cyfeiriad, gan gynnwys cod post a rhif CPH y daliadau y mae'r moch yn cael eu symud oddi arnynt ac iddynt;

(b) y dyddiad y mae'r symud yn digwydd;

(c) y nifer o foch y mae'r ddogfen honno'n eu cwmpasu;

(ch) marc adnabod pob un o'r moch a symudir; ac

(d) yn achos symud mochyn o farchnad, rhif lot y moch sy'n cael eu symud.

(2) Rhaid i unrhyw berson sy'n cludo mochyn roi'r ddogfen y cyfeirir ati ym mharagraff (1) i'r ceidwad yn naliad y gyrchfan a rhaid i'r ceidwad ei chadw am o leiaf 6 mis.

(3) Rhaid i geidwad daliad y gyrchfan anfon copi o'r ddogfen y cyfeirir ati ym mharagraff (1) at yr awdurdod lleol, a hynny o fewn 3 diwrnod ar ôl i'r mochyn gyrraedd.

(4) Rhaid i geidwad mochyn sy'n cael ei symud y tu allan i Gymru anfon copi o'r ddogfen y cyfeirir ati ym mharagraff (1) at yr awdurdod lleol ar gyfer y daliad traddodi.

### Trwyddedau cerdded i foch anwes

**22.**—(1) Caiff ceidwad mochyn anwes wneud cais i'r Ysgrifennydd Gwladol am drwydded ("trwydded gerdded") sy'n caniatáu i'r ceidwad symud y mochyn heb gydymffurfio ag erthyglau 5 a 21.

(2) Rhaid i'r person sy'n symud y mochyn o dan y drwydded hon gario copi ohoni drwy gydol y symud.

### Daliadau cymeradwy

**23.**—(1) Daliad y caiff y Cynulliad Cenedlaethol ei gymeradwyo at ddibenion symud moch y bwriedir eu bridio neu eu pesgi yw daliad cymeradwy.

(2) Rhaid i'r gymeradwyaeth bennu pa ddaliadau y gellir symud moch oddi arnynt a pha ddaliadau y gellir eu symud iddynt.

(3) Nid yw symud moch rhwng daliadau sydd wedi'u cymeradwyo o dan yr erthygl hon yn sbarduno'r cyfnod segur yng Ngorchymyn Rheoli Clefydau (Cymru) 2003 (**1**).

(**1**) O.S. 2003/1966 (Cy.211).